Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

15 Tachwedd 2021

Annwyl Riant / Warcheidwad

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu am agweddau pwysig o fywyd ysgol y byddwn yn rhoi sylw iddynt dros y dyddiau nesaf ac y byddaf yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth wrth i ni ymdrin â hwy:

Diweddariad COVID-19: Rwy'n gobeithio fod y mwyafrif o'n disgyblion 12 – 15 oed wedi cael eu pigiad COVID erbyn hyn. Yn galonogol, mae'r niferoedd o achosion +ve COVID ymhysg ein disgyblion a'r staff yn isel ar hyn o bryd.

Mae'n bwysig i ni gofio serch hynny nad yw derbyn y brechlyn yn atal unrhyw un rhag dal y feirws felly mae'n hanfodol bwysig ein bod yn parhau i weithredu ein mesurau atal lledaeniad y feirws, sydd yn cynnwys gwerthuso ein asesiadau risg yn rheolaidd, sicrhau trefniadau hylendid ac awyru da, a threfniadau i atal presenoldeb gan unigolion â symptomau COVID-19. Rwy'n ofni fod blinder (COVID fatigue) yn ymddangos ymysg rhai o'n disgyblion a nifer yn dechrau anwybyddu ein gweithdrefnau COVID. Mae'n bwysig atgoffa eich plentyn ein bod ni yn y sefyllfa lled dda yma ar hyn o bryd oherwydd fod pawb wedi bod yn cadw at ein gweithdrefnau atal COVID hyd yma ac rwy'n awyddus iawn nad ydyn yn peryglu'r sefyllfa bresennol.

Os oes unrhyw amheuaeth am gyflwr iechyd eich plentyn hyd yn oed os yw'r prawf llif ardraws yn negyddol, fe'ch anogaf i drefnu prawf PCR i'ch plentyn drwy ffonio 119 er mwyn bod yn gwbl sicr o'r sefyllfa. Os yw'r symptomau yn parhau, gofynnaf i chi gadw eich plentyn adref nes eich bod yn derbyn canlyniad y prawf PCR.

Mae gofyn i oedolion sydd wedi'u brechu'n llawn a phlant a phobl ifanc rhwng 5 a 17 oed, hunanynysu nes eu bod wedi cael prawf PCR negatif os bydd rhywun ar eu haelwyd yn arddangos symptomau neu'n cael prawf positif ar gyfer Covid-19.

Mae disgwyl i ddisgyblion a staff barhau i gymryd prawf llif ardraws yn y cartref, 2 neu 3 diwrnod ar wahân yn wythnosol yn ystod y tymor. Mae angen i ddisgyblion gofio casglu pecynnau newydd o'r ysgol pan fo angen. Yn amlwg, os yw'r prawf yn un cadarnhaol, bydd angen cysylltu â'r ysgol cyn gynted ag y bo modd, yn ogystal â'r gwasanaeth iechyd er mwyn trefnu prawf PCR.

Yn anffodus, mae nifer cynyddol o ddisgyblion yn ymwrthod rhag gwisgo mygydau mewn mannau cyhoeddus yn yr ysgol erbyn hyn sydd yn groes i'r gorchymyn yng Nghymru. Gofynnaf yn garedig i chi, atgyfnerthu pwysigrwydd y gorchymyn hyn gyda'ch plentyn er mwyn ei diogelwch ei hunain ac eraill. Nid oes disgwyl i ddisgyblion na staff wisgo mygydau yn yr ystafelloedd dosbarth oni bai eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus neu'n ddiogel wrth wneud hynny. Gofynnir yn garedig i chi hefyd atgyfnerthu pwysigrwydd gwisgo gorchudd wyneb ar y bysiau ysgol. Mae hyn eto yn orchymyn cenedlaethol ar gyfer teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mae disgyblion yn peryglu eu lle ar y bws os nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheol hyn.

Parch / Parodrwydd / Perthyn: Yn yr atodiad fe welwch gopi o'n strategaeth Parch / Parodrwydd / Perthyn yr ydym wedi bod yn ei weithredu drwy'r tymor. Fe fyddwn yn atgyfnerthu'r egwyddorion pwysig hyn mewn cyfres o

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

wasanaethau torfol fesul blwyddyn wythnos yma mewn ymgais i atgoffa ein disgyblion o bwysigrwydd parchu eu hunain ac eraill gan gynnwys staff; fod yn barod ar gyfer diwrnod o waith ysgol o ran gwisg ag offer cywir a phwysigrwydd ymdeimlad o berthyn i ysgol cyfrwng Cymraeg.

Gwisg ysgol: Disgwylir i bob disgybl wisgo gwisg ysgol arferol. Rydym yn disgwyl safonau uchel o ran gwisg a byddwn yn cysylltu â chi os oes pryder am safon gwisg eich plentyn. Gwiriwch y rheolau, gan gofio dim jîns, leggings na sgertiau lycra—sgertiau a throwsus o ddefnydd gwisg ysgol yn unig. **Dim gemwaith, dim ewinedd ffug na lliw gwallt annaturiol.** Colur naturiol yn unig. Parhewch i wirio eich plentyn yn y bore cyn iddynt adael am yr ysgol i sicrhau nad ydynt yn gwisgo gemwaith i'r ysgol os gwelwch fod yn dda. Byddwn yn gofyn i'r unigolion hynny sydd yn herio'r rheol gemwaith yn rheolaidd i roi'r gemwaith mewn amlen a'u casglu o'r ardal cynnydd ar ddiwedd y dydd.

Gwisg addysg gorfforol: Rydym yn barod i ddychwelyd i'r sefyllfa arferol lle bo disgybl yn gwisgo gwisg ysgol yn ddyddiol ac yn dod a'u gwisg addysg gorfforol i'r ysgol mewn bag pan fo gwersi addysg gorfforol wedi eu amserlenni. Ni chaniateir unrhyw eitemau o git sydd heb fathodyn yr ysgol arno. Gofynnaf yn garedig i chi sicrhau bod gan eich plentyn nodyn i'r athro os oes rheswm am ddiffyg cit neu reswm dilys pam na all y disgybl gymryd rhan yn y wers.

Ffonau symudol: Mae gormod o ddisgyblion yn herio ein rheol ffon symudol ar hyn o bryd. Allwch chi atgyfnerthu rheol yr ysgol ar y defnydd o ffonau symudol gyda'ch plentyn, os gwelwch yn dda? Caniateir y defnydd o ffonau symudol yn yr ystafell ddosbarth yn unig gyda chaniatâd athro ar gyfer cefnogi'r broses ddysgu. Ni chaniateir y defnydd o ffonau symudol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Os oes angen i ddisgybl gysylltu gartref am unrhyw reswm, dylent fynd i'r ardal cynnydd i ofyn am ganiatâd a gwneud yr alwad dan oruchwyliaeth. Bydd athrawon yn gofyn i'r unigolion hynny sydd yn herio'r rheol defnydd o ffon symudol i roi'r ffon mewn amlen a'i gasglu o'r ardal cynnydd ar ddiwedd y dydd.

Apiau cyfryngau cymdeithasol e.e. tiktok: Rwy'n pryderu'n fawr am gam-ddefnydd rhai disgyblion o gyfryngau cymdeithasol a dylanwad y cyfryngau cymdeithasol hyn ar ymddygiad rhai o'n disgyblion. Mae'r ap tiktok yn un esiampl lle mae disgyblion yn medru cael eu annog i gam-ymddwyn er mwyn plesio eraill ar-lein. Nid cyd-ddigwyddiad oedd hi ein bod wedi profi difrod i rai o'n tai bach yn ystod wythnos pan roedd hyn yn cael ei hyrwyddo'n fyd eang ar yr ap arbennig yma. Mae angen i bob disgybl fod yn ofalus iawn o'r cynnwys sydd ganddynt ar eu ffonau, fe all gam-ddefnyddio delweddau, cynnwys anaddas, sarhau eraill ac achosion o fwlian arwain at gamau troseddol gan yr heddlu. Mae'n hanfodol bwysig eich bod yn gwirio cynnwys ffon eich plentyn yn rheolaidd er mwyn eu diogelu.

Project addysgu am droseddau yn ymwneud â chyllyll gan yr Heddlu lleol, wythnos genedlaethol codi ymwybyddiaeth am droseddau cyllyll, Tachwedd 15 - 19: Mae gan heddlu lleol y Tyllgoed berthynas weithio cryf gyda'u hysgolion lleol ac yn aml fe ddônt i mewn i'r ysgolion i addysgu disgyblion am bob math o agweddau cymdeithasol gyda'r bwriad o leihau ar ymddygiad anghymdeithasol yn y gymuned. Mae hi'n wythnos codi

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

ymwybyddiaeth o droseddau yn ymwneud â chyllyll wythnos yma ac fe fydd aeodau o'r heddlu lleol yn ymweld â'r ysgol i addysgu ein disgyblion am beryglon cario cyllell. Fe fyddant yn cynnal stondin rhannu gwybodaeth ac yn gweithio gyda grwpiau o ddisgyblion yn ystod yr wythnos i'w addygu am beryglon cyllyll yn benodol. Os hoffech fwy o wybodath am y project yma, cysylltwch â PCSO Richard Davies drwy ebost: Richard.davies8@south-wales.police.uk

Profion CATS: Fe fydd yr ysgol yn cynnal cyfres o brofion gyda holl ddisgyblion blynyddoedd 7 a 10 yn ystod yr hanner tymor hwn. Cynhelir y profion ar-lein ac maent wedi ei cynllunio er mwyn asesu cryfderau disgyblion ond hefyd adnabod unrhyw rwystrau i ddysgu na fyddai'n cael eu hadnabod o reidrwydd trwy asesiadau traddodiadol. Mae'r profion yn arfogi'r staff yr ysgol ac yn caniatau iddyn nhw weld os oes unrhyw gefnogaeth ychwanegol y gellir ei gynnig i ddisgyblion sy'n gweld rhai agweddau o'i gwaith yn her. Fe fydd y wybodaeth yn werthfawr i'r ysgol wrth i ni adfer wedi'r ardrawiad y mae COVID wedi ei gael ar y disgyblion a'n bod ni yn medru targedu cymorth a chefnogaeth i'r rhai sydd wir ei angen. Os am fanylion pellach, ebostiwch tw@ysgolplasmawr.cymru

Gweithgareddau allgyrsiol a gemau: Dilynwch gyfrifon trydar yr adrannau isod am fanylion cyson ar gyfer gweithgareddau a gwiriwch eich ebyst yn rheolaidd am wybodaeth. Bydd y staff yn dilyn canllawiau y cyrff rheoli chwaraeon perthnasol ac yn asesu'r risg wrth ddarparu'r clybiau. Rwy'n hynod ddiolchgar i'r staff am gynnig cyfoeth o brofiadau allgyrsiol i'r disgyblion:

Yr ysgol:	@ysgolplasmawr
Addysg Gorfforol:	@plasaddgorff
Pêl droed:	@pel_droed
Cerdd:	@cerddplasmawr
Drama:	@dramaplasmawr
Gwyddoniaeth:	@GwyddPlas
Hanes:	@HanesPlasmawr
Daearyddiaeth:	@Daear6Plasmawr
Mathemateg:	@MathsPlasmawr
Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:	@PlasAddGref
Graffeg:	@Stiwdio_S
Ffrangeg:	@FfrangegPlas
Sbaeneg:	@SbaenegPlasmawr

Gofal wrth droi'r car yn y ffordd y tu allan i'r ysgol: Fe gafodd un o'n disgyblion oedd yn teithio i'r ysgol ar feic ei daro gan gar y tu allan i'r ysgol wythnos yma. Yn ffodus iawn ni chafodd anafiadau difrifol. Roedd gyrrwr y car yn gwneud troiad 3 pwynt yng nghanol y ffordd wedi gollwng ei blentyn yn y 'lay-by' y tu allan i'r ysgol ac yn amlwg heb weld y seiclwr wrth droi'r car. Gofynnaf yn garedig i chi osgoi gwneud troiadau 3 pwynt yn y ffordd y tu allan i'r ysgol er lles ein disgyblion.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

CRASP: Hoffwn ddiolch i bawb wnaeth gefnogi'r cwis a drefnwyd gan Cymdeithas Rieni, Athrawon a Staff Plasmawr (CRASP) nos Wener ddiwethaf. Roedd hi'n noson hwyliog a phleserus a diolch arbennig i'r pwyllgor am ei drefnu ac i Mr Huw Onllwyn Jones am fod yn gwis feistr arbennig o dda.

Trefniadau mis Tachwedd a Rhagfyr:

Dydd Mercher	24 Tachwedd:	Noson adloniant cerddorol rithiol.
Dydd Iau	25 Tachwedd:	Noson rieni rithiol i Bl 13.
Dydd Llun	29 Tachwedd:	Hyfforddiant Mewn Swydd.
Rhagfyr 6 – 17:		Ffugbrofion Bl 11, 12 a 13.
Dydd Iau	Rhagfyr 9:	Noson rieni rithiol i Bl 8.
Dydd Iau	Rhagfyr 16:	Cyngerdd Nadolig rithiol.
Dydd Gwener	Rhagfyr 17:	Diwedd tymor yr hydref.

Cofion cynnes a chadwch yn ddiogel,

John Hayes
Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

15 November 2021

Dear Parent / Guardian

I am writing to you with information about some key issues that we will be giving attention to this week and for the forthcoming weeks and I would ask for your support in assisting us to address these issues:

COVID-19 – an update: I hope that the majority of our 12 – 15-year-old pupils have had their COVID injection. I can report promising news that the number of +ve COVID cases amongst pupils and staff is currently low.

It is important to remember however, that being immunised for COVID-19 does not mean that we cannot become infected by the virus and that is why we must continue with our baseline measures including regularly reviewing our risk assessments, improving our hygiene and ventilation, and preventing attendance by individuals with COVID-19 symptoms. I am concerned that COVID fatigue is becoming more and more evident with some pupils who are ignoring our COVID guidelines. It is important that we all remind our young people regularly that we are currently in a good position because we have all been adhering to the COVID guidelines and we do not want to endanger this current healthy position.

If you have any concerns about the health of your child and even if a Lateral Flow Test is -ve, I encourage you to book a PCR test by calling 119 to make sure that they are not suffering from COVID-19. If your child is symptomatic then please do not send your child to school whilst awaiting the result for the PCR test.

Adults who are fully vaccinated and children and young people aged five to 17 will be asked to self-isolate until they have received a negative PCR test if someone in their household has symptoms or tests positive for Covid-19.

Staff and pupils are reminded of the importance of continuing to test themselves with the lateral flow tests twice weekly throughout the term. Please remind your child to ask for another testing kit in school once they've finished a kit. If your child tests positive, please report the result directly to school and to the local health board.

Unfortunately, an increasing number of pupils are not wearing masks within the school building despite masks being freely available in school. Please could you support is in reminding your child that wearing masks/face coverings is mandatory in public spaces in Wales. I therefore expect members of the school community to wear a mask or face covering within the school building, our communal areas, corridors and stairways unless exempt. The wearing of a mask/face covering in class is not mandatory, but pupils are encouraged to wear one if they feel more comfortable or safe in doing so. The wearing of masks/face coverings is mandatory on public transport, which includes school transport. Your child risks being refused the right to travel on a school bus if they do not wear a mask/face covering.

Be Respectul / Be Prepared / Belong: I have attached a copy of our 'Be Respectul / Be Prepared / Belong' strategy which we launched at the beginning of term and shared with you at that time. We will be reminding our pupils of the principles that underpin this strategy during whole year group assemblies this week; the importnace of **respecting** yourselves and others including staff; **being prepared** for a day in school in terms of correct uniform and having the necessary equipment and the importance of **belonging** to a Welsh medium school.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

School uniform: Pupils are expected to wear the normal school uniform. We will maintain our high standards with regard to uniform and will contact you if we have concerns about the standard of uniform worn by your child. May I remind you that we do not allow, jeans, leggings or lycra skirts. Skirts and trousers of school uniform material only. **No jewellery, no false nails or hair of an unnatural colour.** Natural make-up only. Please continue to check that your child is not wearing jewellery as he or she leaves for school in the morning. Pupils who challenge the no jewellery rule regularly will be asked to place their jewellery in an envelope which will then be kept in the progress area for collection at the end of the school day.

PE kit: We are in a position to revert to the normal procedures regarding PE kit which means that pupils are asked to wear their school uniform daily and to bring their PE kit to school in a bag on those days when a PE lesson is timetabled. Items of kit without the school badge are not acceptable. Could you please write a brief note for the teacher if your child has no kit or cannot participate in a lesson for any reason?

Mobile phones: Unfortunately, we currently have too many pupils challenging our mobile phone rules. Could you please assist us in explaining to your child the school rule on the use of mobile phones in school? The use of mobile phones is not permitted in school apart from in lessons under the direction and supervision of the teacher for learning purposes. If your child needs to make a call during the day, they must go the progress area and explain the situation to a member of staff who will then supervise the pupil whilst making the call. Pupils who challenge the no mobile phone rule regularly will be asked to place their mobile phone in an envelope which will be kept in the progress area for collection at the end of the school day.

Social media apps e.g. tiktok: I am becoming increasingly alarmed at the number of incidents of mis-use of social media amongst our pupils and the powerful effect that these apps can have on pupil behaviour. The tiktok app is one example of a social media platform that encourages pupils to mis-behave in order to please others. It is no coincidence that a recent spate of damage to our toilets coincided with a global tiktok challenge to vandalize school toilets. Pupils need to be extremely mindful of the content that they have stored on their phone. Mis-use of images, inappropriate content, offensive imagery and examples of bullying can lead to police involvment and sanctions. It is essential that you review the content stored on your child's phone regulalrly for their own on-line safety.

A message from our local Fairwater Neighbourhood Policing Team, 'Knife crime awareness week, November 15 – 19': The Fairwater neighbourhood policing team have a good working relationship with local schools and routinely work together to educate youths in order to prevent anti-social behaviour, drug use and crime. With that in mind and with permission of the schools they are planning to attend local high schools over the course of the next few weeks to educate young people about the risks and dangers of the mis-use of illegal substances and knife crime. The purpose of this project is purely an educational tool and a preventative measure. If you have any questions please contact PCSO Richard Davies via email Richard.davies8@south-wales.police.uk

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

CATS tests: The school will be conducting a series of tests with all pupils in year 7 and 10 during this half term. These are online tests that are designed to assess a pupils strengths and also identify any barriers to learning that would not be picked up through the school's traditional assessment methods. These tests arm us with valuable information to allow us to determine if any additional support needs to be put in place for pupils that may find some aspects of their studies a challenge. This information will be valuable as we recover from the impact that COVID has had on our pupils and that we are able to target support to those who truly need it. For more information please email tw@ysgolplasmawr.cymru

Extra-curricular activities and games: Please follow the various Twitter accounts below and check your emails regularly for information regarding these activities. Our staff will follow National guidelines regarding safe practice in offering these activities. I am indebted to all staff who offer these myriad of extra-curricular opportunities:

School:	@ysgolplasmawr
P.E:	@plasaddgorff
Football:	@pel_droed
Music:	@cerddplasmawr
Drama:	@dramaplasmawr
Science:	@GwyddPlas
History:	@HanesPlasmawr
Geography:	@Daear6Plasmawr
Mathematics:	@MathsPlasmawr
Religion, Values and Ethics:	@PlasAddGref
Graphics:	@Stiwdio_S
French:	@FfrangegPlas
Spanish:	@SbaenegPlasmawr

An accident waiting to happen: One of our pupils had a lucky escape last week when he was hit by a car as he was cycling to school. Fortunately the pupil suffered only minor injuries. The incident happened when the driver of the car was undertaking a 3-point turn in the road adjacent to the school, and whilst reversing did not see the on-coming cyclist. I would kindly ask you not to perform 3-point turns outside the school after dropping your child off in the lay-by next to the school in the mornings.

CRASP: I would like to thank everyone that supported the Parent, Teacher and Staff society (CRASP) quiz last Friday evening. It was an entertaining and pleasurable event, extremely well-organized by members of the committee and a big thank you to the excellent quiz master, Mr Huw Onllwyn Jones.

Arrangements for November and December:

Wednesday	24 November:	A virtual evening of musical entertainment.
Thursday	25 November:	A virtual Year 13 parents evening.
Monday	29 November:	INSET day.
December 6 – 17:		Mock exams; Years 11, 12 and 13.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ

029 20 405 499

post@ysgolplasmawr.cymru

@YsgolPlasmawr

Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ

029 20 405 499

post@ysgolplasmawr.cymru

@YsgolPlasmawr

Headteacher: Mr John D Hayes

Thursday	December 9:	A virtual Year 8 parents evening.
Thursday	December 16:	Our virtual Christmas concert.
Friday	December 17:	End of autumn term.

Best wishes and please remain safe,

John Hayes
Headteacher